



Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adolygiad o Gynlluniau Cydraddoldeb Anabledd ac arfer mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion

Mehefin 2011



BUDDSODDWYR
MEWN POBL

Aur

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ⬆ ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALLau);
- ⬆ ysgolion cynradd;
- ⬆ ysgolion uwchradd;
- ⬆ ysgolion arbennig;
- ⬆ unedau cyfeirio disgyblion;
- ⬆ ysgolion annibynnol;
- ⬆ addysg bellach;
- ⬆ dysgu oedolion yn y gymuned;
- ⬆ awdurdodau lleol;
- ⬆ addysg a hyfforddiant athrawon;
- ⬆ dysgu yn y gwaith;
- ⬆ cwmnïau gyrfaedd; a
- ⬆ dysgu troseddwr.

Mae Estyn hefyd:

- ⬆ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- ⬆ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon neges e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.

Crynodeb

Dros y tair blynedd diwethaf, mae ysgolion prif ffrwd ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) wedi gwella'r ffordd y maent yn hyrwyddo cydraddoldeb a mynediad anabledd ond mae ysgolion arbennig yn llwyddo'n well na'r ddau sector.

Mae bron pob ysgol ac UCD wedi cyhoeddi cynllun hygyrchedd a chynllun cydraddoldeb anabledd sy'n cynnwys cynllun gweithredu wedi'i ddiweddarau a gymeradwywyd gan eu corff llywodraethol. Mae cynlluniau, cynlluniau gweithredu ac arfer ysgolion yn amrywio'n sylweddol o ran cwmpas ac ansawdd. Mae'r cynlluniau gweithredu gorau yn nodi'r camau a fwriedir, llinellau amser a chyfrifoldebau am weithredoedd. Mae mwyafrif y cynlluniau yn canolbwyntio ar ddisgyblion ag anableddau corfforol neu weladwy, yn hytrach na'r ystod lawn o anableddau. Nid yw'r rhan fwyaf o rieni a disgyblion yn ymwybodol o'r cynlluniau hyn. Nid yw ysgolion ac UCDau yn arfarnu effaith eu cynlluniau yn ddigon da.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion ac UCDau, mae gweithio gwell mewn partneriaeth yn gwella deilliannau ar gyfer pobl ag anableddau. Mae partneriaethau rhwng ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd yn ehangu'r cyfleoedd ac yn gwella'r cymorth ar gyfer disgyblion ag anableddau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anableddau a'u rhieni yn gadarnhaol ynglŷn â chynnydd addysgol a chymdeithasol y disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion ac UCDau yn gwneud newidiadau ac addasiadau ffafriol i'r cwricwlwm ac amgylchedd yr ysgol sy'n briodol i anghenion unigol y disgyblion.

Mae gan bob ysgol bolisiau gwrth-fwllo. Er bod lleiafrif bach o ddisgyblion ag anableddau mewn ysgolion prif ffrwd yn dweud eu bod wedi cael eu bwlio, maent yn gadarnhaol ynglŷn â'r camau y mae eu hysgolion yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r bwlio hwn.

Trwy gydol yr adroddiad hwn, bydd y term 'ysgolion' yn cyfeirio at ysgolion prif ffrwd, ysgolion arbennig ac UCDau.

Cynnwys	Tudalen
---------	---------

Prif ganfyddiadau	1
--------------------------	----------

Argymhellion	3
---------------------	----------

Cyd-destun	4
-------------------	----------

Gwella mynediad a darpariaeth	6
--------------------------------------	----------

Mynediad i adeiladau	8
----------------------	---

Mynediad i'r cwriclewm	9
------------------------	---

Gwibdeithiau ysgol a gweithgareddau allgyrsiol	9
--	---

Trefniadau trosglwyddo	10
------------------------	----

Hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at bobl ag anableddau	11
---	----

Cyfathrebu	11
------------	----

Datblygu Cynlluniau Cydraddoldeb Anabledd	12
--	-----------

Cynlluniau Cydraddoldeb Anabledd	12
----------------------------------	----

Cynnwys pobl ag anableddau	15
----------------------------	----

Gweithio mewn partneriaeth	14
----------------------------	----

Defnyddio data i nodi a mynd i'r afael â materion cydraddoldeb anabledd	19
--	-----------

Data cynnydd	19
--------------	----

Monitro presenoldeb ac ymddygiad	19
----------------------------------	----

Monitro bwlio oherwydd anabledd	20
---------------------------------	----

Data staff	20
------------	----

Sut mae ysgolion ac UCau yn asesu effaith eu Cynllun Cydraddoldeb Anabledd	21
---	-----------

Arfarnu effaith	21
-----------------	----

Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru	21
--	----

Atodiad 1

Sail y dystiolaeth

Canfyddiadau o ymchwil diweddar

Atodiad 2: Astudiaethau achos arfer dda

Atodiad 3: Ymchwil a chyhoeddiadau perthnasol

Geirfa

Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

Prif ganfyddiadau

- 1 At ei gilydd, mae ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn gwella wrth fynd i'r afael â chydraddoldeb anabledd. Yn gyffredinol, mae hyrwyddo cydraddoldeb anabledd a gwella mynediad corfforol yn well mewn ysgolion arbennig na mewn ysgolion prif ffrwd ac UCDau.
- 2 Mae ysgolion arbennig yn well yn cael gwared ar rwystrau i ddisgyblion ag anableddau na'r rhan fwyaf o ysgolion prif ffrwd ac UCDau. Mae llawer o UCDau wedi bod yn araf i ymateb. Mae angen gwaith sylweddol ar lawer o adeiladau ysgolion uwchradd hŷn o hyd i wneud addasiadau priodol ac addasiadau ffafriol.
- 3 Mae gan bob rheolwr agweddau cadarnhaol at hyrwyddo cydraddoldeb anabledd ac maent yn deall bod angen newid cyfleusterau ac ymagweddau ysgol gyfan i hyrwyddo cydraddoldeb anabledd, yn ogystal â chyfrannu at fodloni anghenion unigolion. Nid yw pob rheolwr wedi llwyddo i wneud y newidiadau angenrheidiol.
- 4 Mae ysgolion yn ymwybodol o arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar 'Hyrwyddo Cydraddoldeb Anabledd' 2007 ac mae gan bob un ohonynt Gynllun Cydraddoldeb Anabledd, sy'n cynnwys cynllun gweithredu sy'n cael ei archwilio a'i gymeradwyo gan y corff llywodraethol. Caiff arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar 'Hyrwyddo Cydraddoldeb Anabledd' 2007 ei ddefnyddio'n effeithiol gan y rhan fwyaf o ysgolion i ddatblygu neu fonitro cynlluniau. Fodd bynnag, mae cynnwys a datblygiad Cynlluniau Cydraddoldeb Anabledd yn amrywio o ran eu hansawdd a'u cwmpas. Nid yw Cynllun Cydraddoldeb Anabledd wedi'i ysgrifennu'n dda bob amser yn arwain at yr arfer fwyaf cynhwysol mewn ysgolion ychwaith. Mewn rhai ysgolion arbennig, mae'r arfer yn well na'r hyn sydd wedi'i gofnodi yn eu cynllun.
- 5 Mae'r rhan fwyaf o Gynlluniau Cydraddoldeb Anabledd wedi'u cyhoeddi ac ar gael yn electronig ar wefannau ysgolion, yn ogystal ag ar bapur. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn trefnu bod eu Cynllun Cydraddoldeb Anabledd ar gael ar gais mewn fformatau eraill. Er enghraifft, gellir eu haddasu ar gyfer rhiant sydd â nam ar ei (g)olwg neu'u cyfieithu i ieithoedd eraill. Fodd bynnag, nid yw llawer o rieni a'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o'r cynlluniau.
- 6 Mae bron pob un o'r rhieni yn gadarnhaol ynglŷn ag ymdrechion ysgolion i fodloni anghenion eu plant ag anableddau. Fodd bynnag, mae rhai rhieni yn cael anawsterau ag awdurdodau lleol yn y cyfnodau cynnar o gydnabod bod gan eu plentyn anghenion a sicrhau darpariaeth ddigonol o ran adnoddau.
- 7 Mae pob corff llywodraethol yn monitro cynlluniau Cydraddoldeb Anabledd eu hysgol yn flynyddol. Mae rhai llywodraethwyr, gan gynnwys y rhai sydd ag anableddau, yn ymweld ag ysgolion yn rheolaidd i fonitro hygyrchedd a herio cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu.
- 8 Mae rhai staff ag anableddau yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw. Roedd nifer fach y staff ag anableddau y cyfwelwyd â nhw yn cymryd rhan mewn datblygu ac arfarnu polisïau, gan gynnwys Cynlluniau Cydraddoldeb Anabledd.

- 9 Mae rheolwyr yn nodi ac yn delio'n effeithiol ag achosion o fwlio pan fyddant yn digwydd. Mae lleiafrif o'r disgyblion ag anableddau a holwyd yn cofio adegau pan gawsant eu galw'n enwau a oedd yn cyfeirio at eu hanabledd. Fodd bynnag, roedd y disgyblion hyn yn falch â'r ffordd yr aeth eu hysgolion i'r afael â'r achosion hyn.
- 10 Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol bartneriaethau da gyda'u hysgolion ac maent yn cydweithio i hyrwyddo cydraddoldeb anabledd. Er 2007, mae pob awdurdod lleol wedi cyflwyno hyfforddiant cydraddoldeb anabledd ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn parhau i fonitro a chynorthwyo.
- 11 Mewn llawer o awdurdodau lleol, mae nifer o bartneriaethau ychwanegol, gan gynnwys y rhai â gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, yn gwella'r cymorth targedig i ddisgyblion ag anableddau. Fodd bynnag, mewn rhai awdurdodau, ni chaiff darpariaeth yr offer arbenigol i ysgolion ei rheoli'n dda.
- 12 Mae'r diffiniad o anabledd yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn eang ac mae'r rhan fwyaf o reolwyr ysgol yn mynd i'r afael ag ystod lawn anghenion y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o reolwyr UCDAu yn ddigon ymwybodol o ehangder a pherthnasedd y ddeddfwriaeth anabledd i'w disgyblion neu'u cyfrifoldebau, er enghraifft i hyrwyddo delweddau cadarnhaol o anabledd neu sicrhau bod ganddynt ddata priodol am anableddau disgyblion a staff.
- 13 Mae pob un o'r disgyblion ag anableddau a gafodd eu cyfweld mewn ysgolion yn gadarnhaol ynglŷn â'u cynnydd a'u profiad yn yr ysgol. Mae disgyblion mewn UCDAu yn mynegi safbwyntiau mwy cymysg am eu cynnydd a'u darpariaeth.
- 14 Prin yw'r rheolwyr sy'n arfarnu effaith eu cynlluniau a'u cynlluniau gweithredu. Yn gyffredinol, maent yn rhoi mwy o ffocws ar sefydlu polisïau a phrosesau, er enghraifft ar gasglu data, yn hytrach nag asesu effaith eu gweithredoedd.
- 15 Er 2007, mae nifer yr holl apeliadau i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru wedi gostwng. Mae nifer yr apeliadau am resymau yn ymwneud â chydraddoldeb anabledd yn parhau i fod yn isel iawn, sy'n dangos bod rhieni, at ei gilydd, yn fodlon â'r ddarpariaeth.

Argymhellion

Dylai ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion:

- A1 godi ymwybyddiaeth ymhlith disgyblion, rhieni a chymunedau am eu Cynllun Cydraddoldeb Anabledd a'u cynllun gweithredu a'u hannog i gymryd mwy o ran;
- A2 sicrhau bod adeiladau yn briodol, yn enwedig mewn mannau ymarferol a mannau gweithdy; a
- A3 chryfhau mecanweithiau i olrhain cynnydd wrth roi Cynlluniau Cydraddoldeb Anabledd ar waith a mesur eu heffaith ar bobl ag anableddau.

Dylai awdurdodau lleol:

- A4 sicrhau bod staff mewn UC Dau yn deall eu cyfrifoldebau yn llawn a'u bod yn trefnu darpariaeth briodol i hyrwyddo cydraddoldeb anabledd;
- A5 parhau i weithio gydag ysgolion i wneud addasiadau priodol i sicrhau bod adeiladau yn briodol;
- A6 monitro Cynlluniau Cydraddoldeb Anabledd yn fwy rheolaidd a rhoi adborth i ysgolion ac UC Dau i sicrhau cysondeb gwell o ran polisi ac arfer; ac
- A7 adolygu cydlynu gwasanaethau i gyflenwi offer arbenigol i ysgolion.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- A8 barhau i fonitro effaith ei pholisïau i wella cydraddoldeb ar gyfer disgyblion a phobl eraill ag anableddau mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion; a
- A9 diweddarau eu harweiniad i ysgolion, yng ngoleuni Deddf Cydraddoldeb 2010, i gefnogi ysgolion i barhau i fodloni anghenion pob grŵp o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anableddau.

Cyd-destun

- 17 Mae'r adroddiad hwn, a luniwyd i ymateb i'r cylch gwaith Gweinidogol blynyddol i Estyn, yn edrych ar ba mor dda y mae ysgolion yn ymateb i'r dyletswyddau a gyflwynwyd gan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2006. Mae'n rhoi diweddariad ar gynnydd, yn dilyn cyhoeddiad cynharach gan Estyn, sef 'Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (1995): arfer ysgolion ac awdurdodau addysg lleol wrth gyflawni eu dyletswyddau' (Estyn, 2007). Trwy gydol yr adroddiad, defnyddir y term 'ysgolion' i gyfeirio at bob ysgol, gan gynnwys UC Dau. Bydd y termau 'ysgolion cynradd', 'ysgolion uwchradd' ac 'ysgolion arbennig' neu 'UC Dau' yn cael eu defnyddio i amlygu'r gwahaniaethau mewn darpariaeth mewn gwahanol fathau o ysgol.
- 18 Ym Medi 2007, cyhoeddwyd arweiniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r holl ysgolion a gynhelir a'r UC Dau o'r enw 'Hyrwyddo Cydraddoldeb Anabledd mewn Ysgolion'. Mae'r arweiniad yn amlygu'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol a gyflwynwyd ar gyfer ysgolion yn sgil Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2006 (DGSA 2006).
- 19 Un o'r dyletswyddau penodol ar gyfer ysgolion yw llunio Cynllun Cydraddoldeb Anabledd. Mae'r arweiniad i ysgolion yn amlygu pwysigrwydd cynnwys pobl ag anableddau, gan gynnwys rhieni, disgyblion, staff ac eraill yn y gwaith hwn. Mae'r ddeddfwriaeth anabledd hefyd yn amlygu pwysigrwydd gwneud newidiadau i gyfleusterau, polisïau a phrosesau'r ysgol gyfan i sicrhau cydraddoldeb anabledd, yn ogystal â pharhau i gymryd camau gweithredu i fodloni anghenion unigolion.
- 20 Mae DGSA 2006 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar bob awdurdod cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion, wrth gyflawni eu swyddogaethau i:
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl ag anableddau a phobl eraill;
 - cael gwared ar wahaniaethu sy'n anghyfreithlon o dan DGSA 1995;
 - cael gwared ag aflonyddu pobl anabl sy'n gysylltiedig â'u hanableddau;
 - hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at bobl ag anableddau;
 - annog cyfranogiad gan bobl ag anableddau mewn bywyd cyhoeddus; a
 - chymryd camau i fodloni anghenion pobl ag anableddau, hyd yn oed os yw hyn yn golygu eu trin yn fwy ffafriol na phobl eraill nad oes ganddynt anableddau.
- 21 Yn ychwanegol, mae dyletswydd benodol ar yr holl ysgolion a ariennir yn gyhoeddus i ddangos sut maent yn bodloni'r ddyletswydd gyffredinol. Mae'r ddyletswydd benodol hon yn cynnwys gofyniad i ysgolion fod wedi paratoi a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Anabledd erbyn 1 Ebrill 2007. Yn fras, mae'r ddyletswydd gyffredinol yn amlinellu'r hyn y mae'n rhaid i ysgolion ei wneud ac mae'r ddyletswydd benodol yn amlinellu sut y byddant yn mynd ati.
- 22 Nod Llywodraeth Cynulliad Cymru yw sicrhau cyfle cyfartal i bobl ag anableddau yng Nghymru. Bwriad yr adolygiad hwn yw hysbysu Gweinidogion Cynulliad Cymru, sydd â dyletswydd gyfreithiol i gyhoeddi adroddiad bob tair blynedd ar roi'r ddyletswydd cydraddoldeb ar waith yng Nghymru. Yn adroddiad Prif Weinidog

Cymru yn 2008, nodwyd bod angen gwneud defnydd gwell o wybodaeth gan gyrff arolygu i lywio adroddiadau yn y dyfodol.

- 23 Yn Hydref 2010, disodlwyd DGSA 2005 gan ddeddfwriaeth newydd, sef y Ddeddf Cydraddoldeb. Fodd bynnag, mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Anabledd, a gyflwynwyd yn 2006, yn parhau i fod yn berthnasol i sefydliadau cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion. Mae'r gofyniad i lunio a chyhoeddi Cynlluniau Cydraddoldeb Anabledd yn aros yr un fath.
- 24 Y diffiniad o anabledd a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yw'r diffiniad a fabwysiadwyd yn Neddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (diwygiwyd) sy'n diffinio rhywun anabl fel 'Rhywun sydd â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a thymor hir ar ei (g)allu i ymgymryd â gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd'.
- 25 Mae nam corfforol neu feddyliol yn cynnwys nam synhwyrdd a nam cyfathrebu. Mae'r diffiniad hefyd yn cynnwys rhai cyflyrau iechyd cynyddol pan fydd diagnosis wedi cael ei wneud o'r cyflwr ac y mae ganddo effaith tymor hir a sylweddol ar fywyd bob dydd yn unigolyn. Mae'r rhain yn cynnwys:
- canser;
 - diabetes;
 - epilepsi;
 - HIV;
 - sglerosis ymledol;
 - nam ar y clyw neu nam ar y golwg;
 - anawsterau symudedd;
 - anawsterau iechyd meddwl; ac
 - anawsterau dysgu.
- 26 Mae crynodeb o ymchwil diweddar perthnasol mewn perthynas â chydraddoldeb anabledd ac arfer mewn ysgolion ar gael yn Atodiad 1.

Gwella mynediad a darpariaeth

- 27 At ei gilydd, mae ysgolion cynradd ac uwchradd wedi gwella'r ffordd y maent yn mynd i'r afael â chydraddoldeb anabledd ers cyflwyno'r arweiniad yn 2007. Oherwydd y sampl fechan o ysgolion arbennig ac UC'Dau sy'n cael eu harolygu bob blwyddyn, mae'n anodd nodi tueddiadau ar gyfer y sectorau hyn. Mae'r tablau isod yn crynhoi'r graddau a ddyfarnwyd yn ystod arolygiadau o hanner yr ysgolion yng Nghymru dros gyfnod o dair blynedd rhwng 2007 a 2010. Mae dyfarnu gradd 2 neu'n uwch yn golygu bod y ddarpariaeth ar gyfer yr agwedd honno a roddir yn nheitlau'r tablau yn dda neu'n well. Mae'r niferoedd mewn cromfachau yn cynrychioli cyfanswm y darparwyr a arolygwyd.

Tabl 1: Ysgolion y dyfarnwyd gradd 2 neu'n uwch iddynt mewn arolygiadau ar gyfer 'pa mor effeithiol y gwnaethant sicrhau bod disgyblion anabl yn cael eu trin yn gyfartal ac yn gwneud addasiadau rhesymol i osgoi eu rhoi dan anfantais sylweddol'

	2007-2008	2008-2009	2009-2010
Ysgolion cynradd	93% (260)	93% (257)	97% (260)
Ysgolion uwchradd	74% (35)	86% (36)	95% (36)
Ysgolion arbennig	7 (7)	8 (8)	6 (6)
UC'Dau	5 (7)	3 (4)	4 (4)


Tabl 2: Ysgolion y dyfarnwyd gradd 2 neu'n uwch iddynt mewn arolygiadau ar gyfer 'pa mor effeithiol yr oedd eu hadeiladau yn darparu lleoliad addas ar gyfer addysgu, dysgu a chymorth da i ddisgyblion'

	2007-2008	2008-2009	2009-2010
Ysgolion cynradd	72% (260)	79% (257)	80% (260)
Ysgolion uwchradd	46% (35)	59% (36)	55% (36)
Ysgolion arbennig	6 (7)	5 (8)	3 (6)
UC'Dau	1 (7)	0 (4)	2 (4)

- 28 Yn gyffredinol, mae'r graddau arolygu a ddyfarnwyd gan Estyn ers cyflwyno arweiniad yn 2007 ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb anabledd a gwella mynediad corfforol i ysgolion yn uwch ar gyfer ysgolion arbennig nag ar gyfer ysgolion prif ffrwd ac UC'Dau, fel y dangosir yn y siartiau isod. Mae'r siartiau isod yn crynhoi data o arolygiadau Estyn ar gyfer agweddau a roddir yn y teitlau yn ystod arolygiadau yn y cyfnod rhwng 2007 a 2010, ac maent yn dangos dosbarthiad y graddau a

ddyfarnwyd ar raddfa bum pwynt Estyn. Mae'r niferoedd mewn cromfachau yn cyfeirio at nifer yr arolygiadau sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad.


Siart 1: Graddau arolygu 2007-2010 a ddyfarnwyd ar gyfer pa mor effeithiol yr oedd yr ysgolion yn sicrhau bod disgyblion anabl yn cael eu trin yn gyfartal ac yn gwneud addasiadau rhesymol i osgoi eu rhoi dan anfantais sylweddol ¹



Roedd enghreifftiau o'r addasiadau rhesymol a wnaed gan ysgolion yn cynnwys gwahaniaethu'r cwricwlwm, addasiadau ar gyfer anghenion synhwyrdd a defnyddio cynorthwyrwyr addysgu ychwanegol. Yn ychwanegol, roedd ysgolion yn cynllunio'n ofalus ac yn gwneud addasiadau priodol ar gyfer digwyddiadau neu wibdeithiau ysgol ac yn addasu fformatau ar gyfer gwybodaeth a chyfathrebu â rhieni, fel peiriannau testun.

¹ Pan fo meintiau'r sampl tua 20 neu'n llai, dangosir niferoedd gwirioneddol yn hytrach na chanrannau.

Siart 2: Graddau arolygu 2007-2010 a ddyfarnwyd ar gyfer pa mor effeithiol yr oedd yr adeiladau mewn ysgolion yn darparu lleoliad addas ar gyfer addysgu, dysgu a chymorth da i ddisgyblion



Primary – Cynradd

Secondary – Uwchradd

Special – Arbennig

PRU – UCD

Grade 1, Grade 2.... – Gradd 1, Gradd 2 etc.

Roedd enghreifftiau o'r addasiadau i adeiladau ac adnoddau yn cynnwys addasu toiledau a chyfleusterau newid, rampiau, lifftiau, taclau codi, addasiadau i leoedd parcio a mynedfeydd ac arwyddion. Gwnaeth ysgolion welliannau hefyd o ran mynediad i offer arbenigol, neu i gynllun a threfniadaeth safleoedd ysgol, ystafelloedd dosbarth, a mannau ymarferol a chymunedol. Mae'r ddau siart yn dangos bod y ddarpariaeth orau, o ran gwneud addasiadau rhesymol a darparu adeiladau priodol, mewn ysgolion arbennig a bod y ddarpariaeth waethaf mewn UCDAu.

Mynediad i adeiladau

- 29 Roedd gan lawer o'r ysgolion arbennig yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg hwn ddarpariaeth bwrpasol a oedd yn sicrhau cyn lleied o rwystrau corfforol ag y bo modd, a bod cyfle i ddisgyblion wneud defnydd da o gyfleoedd dysgu. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd rhieni ac uwch reolwyr wedi gweithio gyda'i gilydd yn dda i nodi a chaffael adnoddau arbenigol i helpu ymestyn medrau a phrofiadau disgyblion.
- 30 Mae llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd yn parhau i roi blaenoriaeth i wella mynediad corfforol. Mynediad gwell o ran drysau a pharcio yw'r addasiadau mwyaf cyffredin. Mae enghreifftiau lle mae addasiadau fel lifftiau, rampiau a thoiledau a chyfleusterau newid sydd wedi'u haddasu'n dda wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol iawn.
- 31 Fodd bynnag, mae mwyafrif yr ysgolion uwchradd, yn enwedig y rhai sydd ag adeiladau hŷn a drysau a choridoriau cul, eto i gael eu haddasu'n briodol. Mewn gormod o'r ysgolion hyn, er gwaethaf ymdrechion y staff, mae disgyblion y mae eu

symudedd yn gyfyngedig yn cael cymorth cadair olwyn pan fydd y coridorau'n brysur. Y rheswm am hyn yw bod y disgyblion hyn yn teimlo'n fwy diogel ac yn fwy hyderus yn eu cadeiriau olwyn nac yn defnyddio cymhorthion cerdded eraill yn y coridorau. Mae'r trefniadau fel trosglwyddo disgyblion yn gynnar i wersi ac oddi yno yn fuddiol ar gyfer disgyblion y mae eu symudedd yn gyfyngedig. Mae'r prif broblemau yn ymwneud ag amseroedd egwyl a chinio pan fydd angen i ddisgyblion symud yn gyflym o gwmpas ysgol, a chaiff eu cynnydd ei rwystro am fod cynifer o ddisgyblion eraill yn symud o gwmpas yr un pryd. Dywedodd disgybl Blwyddyn 9 â pharllys yr ymennydd mewn ysgol uwchradd prif ffrwd:

"Fe hoffwn i gerdded mwy ond dydy hi ddim bob amser yn hawdd. Rwy'n teimlo'n fwy diogel yn y gadair. Rwy'n gwybod ble mae'r torfeydd, ac mae fy ffrindiau gyda mi amser cinio. Mae'n ymwneud â hyder, mewn gwirionedd. Rwy'n cerdded adre mwy, ond mae arna' i ofn syrthio yn yr ysgol, gan fy mod i'n blino ac mae fy nghoesau yn boenus. Rwy' newydd gael cadair newydd. Mae'n wych ond yn rhy lydan, felly mae angen agor y drysau dwbl i fynd trwodd."

- 32 Mae cynllunio amserlenni ymlaen llaw ac addasiadau tra ystyriol i gynllun mannau addysgu arbenigol, fel dylunio a thechnoleg neu wyddoniaeth, yn enghreifftiau o arfer dda. Roedd tua hanner yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw wedi prynu byrddau uwch i gael darpariaeth fwy cyfforddus ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.
- 33 Mae ystod yr adeiladau yn amrywio'n fawr yn yr UC Dau yr ymwelwyd â nhw ac, yn gyffredinol, gwnaed cyn lleied â phosibl o addasiadau. Nid yw dyluniad a chynllun rhai o'r adeiladau yn caniatáu ar gyfer addasu hyblyg, ar wahân i leoedd parcio i'r anabl a mynediad addasedig i ddrysau. Gellid addasu'n haws yr adeiladau mwy newydd sy'n cynnwys UC Dau. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ddisgyblion ag anableddau corfforol wedi cael eu rhoi yn unrhyw un o'r UC Dau yr ymwelwyd â nhw.

Mynediad i'r cwricwlwm

- 34 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anableddau yn cael cyfle i wneud defnydd da iawn o'r cwricwlwm craidd gyda chymorth ychwanegol priodol. Fe wnaeth disgybl Blwyddyn 7 sydd â nifer o anableddau, ddisgrifio ei phrofiad mewn un ysgol uwchradd fel a ganlyn:

"Rwy'n hapus iawn yn yr ysgol. Gwnaeth pob un o'r athrawon yn siŵr mod i'n eistedd yn nhw blaen y dosbarth er mwyn i mi allu gweld y bwrdd gwyn. Rwy'n gwybod ble i fynd am gymorth pan fydd angen, ac rwy' wedi ymgynefino'n dda yn yr ysgol ac yn hoffi hi yma. Rwy'n gallu mynd i'r man cymorth dysgu amser cinio ac amser egwyl, ac rwy'n hoffi hynny. Rydyn ni'n cael clwb yno yn ystod amser cinio. Mae gen i gerdyn sy'n caniatáu i mi adael pob gwers bum munud yn gynnar gan nad ydw i'n gallu ymdopi ar y coridorau pan fyddan nhw'n llawn disgyblion. Rwy' hefyd yn gadael yn gynnar ar ddiwedd y dydd, sy'n dda. Rwy'n hoffi bod mewn dosbarth bach (dosbarth bach ar wahân ar gyfer disgyblion ym Blwyddyn 7 sydd ag anawsterau dysgu). Rwy'n mwynhau'r holl waith rwy'n ei wneud mewn TGCh, sef fy hoff bwnc. Mae'r ysgol wedi addasu'r gosodiadau i mi, felly ble bynnag bydda i'n mewngofnodi ar gyfrifiadur o gwmpas yr ysgol, mae'r un gosodiadau'n ymddangos. Maen nhw'n addasu yn ôl fy anghenion unigol."

- 35 Mewn un ysgol gynradd â disgyblion sydd â nam ar y clyw, mae'r athro arbenigol yn gwneud iaith arwyddion trwy gydol y gwasanaethau. Mae pob un o'r disgyblion yn elwa ar ddefnyddio adnoddau gweledol yn rheolaidd. Mae pob un o'r disgyblion yn canu ac yn gwneud arwyddion i rai caneuon, neu gytganau caneuon, yn rheolaidd. Mae cymuned yr ysgol gyfan yn dysgu un arwydd newydd bob wythnos.

Gwibdeithiau ysgol a gweithgareddau allgyrsiol

- 36 Gall y rhan fwyaf o'r disgyblion hyn sydd ag anableddau mewn ysgolion prif ffrwd gymryd rhan mewn ymweliadau addysgol yn ystod y diwrnod ysgol, ochr yn ochr â'u cyfoedion. Mae cynllunio ymlaen llaw ac asesiadau risg yn golygu bod modd gwneud addasiadau rhesymol ac eithriad fyddai peidio â chynnwys disgyblion anabl. Mae llawer o enghreifftiau o arfer dda lle caiff yr holl wibdeithiau ysgol arfaethedig eu harchwilio i ddiystyru'r rhai nad ydynt yn gynhwysol.
- 37 Mae llawer o enghreifftiau rhagorol hefyd o wneud addasiadau cadarnhaol i hyrwyddo cynnwys disgyblion ag anableddau ar wibdeithiau preswyl (gweler astudiaeth achos 3 yn atodiad 2). Pan fydd hyn yn rhy heriol a pheryglus, trefnir arosiadau dros nos yn hytrach na gwibdeithiau preswyl hwy. O bryd i'w gilydd, mae hyn yn golygu bod angen i'r disgybl fynychu yn ystod y dydd yn unig, a darperir cludiant dyddiol.
- 38 Fodd bynnag, i lawer o ddisgyblion ag anableddau, mae presenoldeb mewn gweithgareddau dydd estynedig yn parhau i fod yn her. Achosir hyn yn bennaf gan y ffaith nad oes cymorth ychwanegol gan oedolyn ar gael y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, neu oherwydd anawsterau â darparu cludiant. Mewn llawer o awdurdodau lleol, dibynnir gormod ar rieni i ddarparu cludiant. Mewn rhai achosion, mae ysgolion yn ariannu'r addasiadau hyn o'u cyllidebau eu hunain. Er enghraifft, mae ysgolion

arbennig yn cynnal clybiau ar ôl yr ysgol yn rheolaidd ac yn trefnu ac yn ariannu cludiant disgyblion ar gyfer y rhain. Mewn llawer o ysgolion arbennig, mae aelodau staff yn gwirfoddoli i aros ymlaen ar ôl yr ysgol i gynorthwyo disgyblion. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ysgolion yn goresgyn yr anawsterau hyn. Dywed rhiant disgybl oedran cynradd sydd ag anableddau:

“Mae fy mab yn colli ei glyw, ac mae graddau hynny yn amrywio. Bydd yr ysgol bob amser yn addasu ei gwricwlwm yn unol â hynny. Maen nhw’n hyblyg iawn. Mae bob amser wedi cael ei annog i gymryd rhan mewn gweithgareddau dydd estynedig, ac mae wedi bod yn aelod o’r clwb pêl-droed, y clwb lacrós a’r clwb eco. Mae’r ysgol bob amser yn delio’n briodol â’i offer arbenigol. Pan fydd yn cael cymhorthion radio newydd, maen nhw’n rhoi trefn ar bopeth ar unwaith yn yr ysgol.”

Trefniadau trosglwyddo

- 39 Mae trosglwyddo, yn enwedig o’r ysgol gynradd i’r ysgol uwchradd, yn gyfnod tyngedfennol ar gyfer cynllunio ac ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng ysgolion ac asiantaethau cymorth. Ar gyfer rhieni plant ag anableddau, mae hyn yn hollbwysig, ac roedd trosglwyddo yn bryder cyffredin a fynegwyd gan y rhan fwyaf o rieni. Mae cynllunio ymlaen llaw yn dda ar gyfer hyn yn amlwg yn y rhan fwyaf o’r ysgolion yr ymwelwyd â nhw. Mae llawer o ysgolion yn dechrau’r broses yn gynnar pan fydd disgyblion ym Mlwyddyn 5. Mae cydweithredu effeithiol rhwng ysgolion, rhieni ac asiantaethau partner yn cynyddu’r cyfle i drosglwyddo’n esmwyth yn fawr, yn enwedig ar gyfer disgyblion ag anableddau. Mae’r rhan fwyaf o ysgolion wedi datblygu protocolau trosglwyddo da sy’n cynnwys cwestiynau penodol a anelwyd at ddarparu cyfleoedd sensitif i deuluoedd ddatgan unrhyw anghenion iechyd, anabledd neu gymdeithasol ychwanegol sydd eu hangen i lywio’r cynllunio.

Hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at bobl ag anableddau

- 40 Mae’r rhan fwyaf o’r ddarpariaeth yr ymwelwyd â hi yn gwneud defnydd da o adnoddau targedig, themâu’r cwricwlwm a chysylltiadau rhwng ysgolion i feithrin agweddau cadarnhaol at bobl ag anableddau. Caiff llawer o bosteri yn dangos mabolgampwyr a phobl mewn bywyd cyhoeddus ag anableddau eu harddangos yng nghoridorau a llyfrgelloedd llawer o’r ysgolion yr ymwelwyd â nhw. Mae’r bobl lwyddiannus hyn, sydd wedi goresgyn llawer o rwystrau personol, yn fodelau rôl ysbrydoledig a chadarnhaol ar gyfer disgyblion. Yn y rhan fwyaf o’r ysgolion cynradd ac arbennig yr ymwelwyd â nhw, mae hyrwyddo cydraddoldeb anabledd yn nodwedd reolaidd mewn gwasanaethau a gwersi addysg bersonol a chymdeithasol.
- 41 Mae arfer dda, lle mae disgyblion ag anableddau yn defnyddio eu cryfderau personol i ddod yn arweinwyr technoleg gwybodaeth a chyfathrebu neu’n gyfeillion cae chwarae, er enghraifft, yn amlwg yn y rhan fwyaf o ysgolion. Mewn un ysgol, mae arddangosiad o ffotograffau o ddisgyblion ag anableddau sy’n gyfeillion ysgol hefyd yn fodelau anabledd cadarnhaol. Mae llywodraethwyr ac aelodau staff ag anableddau yn fodelau rôl ar gyfer pob un o’r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anableddau.

- 42 Mae llawer o enghreifftiau da lle mae arweinwyr wedi buddsoddi mewn deunyddiau darllen i amlygu'r anawsterau y mae pobl ag anableddau yn eu hwynebu mewn cymdeithas. Mae'r adnoddau hyn yn cynorthwyo trafodaethau disgyblion ac yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o'r model anabledd cymdeithasol.
- 43 Mae swyddogion datblygu Chwaraeon Anabledd Cymru yn ymweld â llawer o ysgolion yn rheolaidd ac yn cynorthwyo â sefydlu clybiau a gweithgareddau penodol ar gyfer anableddau fel Bocce (gweler yr eirfa), ar gyfer disgyblion ag anawsterau mwy difrifol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae hyn wedi darparu llwybr effeithiol i gyflawniad gwyb gan ddisgyblion unigol y gall disgyblion eraill ei efelychu (gweler astudiaeth achos 4 yn atodiad 2).

Cyfathrebu

- 44 Mae pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn defnyddio polisi drws agored ar gyfer cyfathrebu â rhieni. Ar lefel disgybl unigol, mae'r strategaeth hon yn gweithio'n dda ac mae disgyblion, rhieni a staff yn ei pharchu. Dyma a ddywedodd un rhiant disgybl Blwyddyn 9 sydd ag anghenion corfforol a meddygol dwys am y gwahaniaeth mewn cyfathrebu rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd y mae'n mynychu erbyn hyn:
- “Roedd polisi drws agored yn yr ysgol gynradd a chyfathrebu rhagorol gyda'r cynorthwyydd cymorth dysgu. Yn yr ysgol uwchradd, mae wedi bod yn fwy anodd cyfathrebu'n uniongyrchol â staff, ond mae'r drafodaeth yn y llyfr cyswllt cartref-ysgol, sydd wedi bod yn barhaus, yn hanfodol. Mae staff yn y ddwy ysgol bob amser wedi gwrandao ar fy merch ac maen nhw bob amser wedi gwneud ymdrech i ymateb yn gadarnhaol i'w hanghenion. Mae cyfathrebu da iawn gyda'r ddwy ysgol ond roedd yn haws yn yr ysgol gynradd. Rydyn ni bob amser wedi cael yr holl wybodaeth angenrheidiol.”**
- 45 Mae rhai arweinwyr yn cynyddu'r cyfryngau cyfathrebu gyda rhieni mewn ffyrdd amrywiol, gan gynnwys defnyddio negeseuon testun ar gyfer rhiant ag anawsterau clywed, llyfrau cartref-ysgol, nosweithiau gwybodaeth, boreau coffi ac arolygon.
- 46 Dywed disgyblion hefyd eu bod yn teimlo bod pobl yn gwrandao arnynt, yn enwedig mewn cyfarfodydd adolygu lle maent yn cymryd rhan mewn gosod targedau ac adolygu ochr yn ochr â'u rhieni. Fodd bynnag, dywed rhai disgyblion mewn ysgolion uwchradd nad oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion a staff gael dealltwriaeth gyffredinol well o'u hanableddau. Mae hwn yn ddiffyg yn yr ysgolion hyn. Dywed disgybl Blwyddyn 9 sydd ag anghenion meddygol dwys:
- “Ro'n i'n teimlo bod pobl yn gwrandao arna' i yn yr ysgol gynradd. Byddwn i'n dweud wrth Mam, a byddai Mam yn siarad â'r cynorthwyydd cymorth dysgu. Rwy' bob amser wedi hoffi cael fy nghynnwys mewn penderfyniadau ynghylch a ydw i'n gallu cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau neu beidio, ond doedd hyn ddim yn digwydd digon yn yr ysgol gynradd. Hoffwn i petai mwy o gyfleoedd ar gael i bobl ddeall fy anabledd. Gallai hyn sicrhau dealltwriaeth well o'm hanghenion a gallai wella fy mherthynas gyda'm cyfoedion a'r staff. Mae staff a chyfoedion sy'n deall yr anabledd, ac wedi cael hyfforddiant, bob amser yn llawer mwy hyderus ac wedi ymlacio mwy yn fy nghwmni i ac maen nhw'n fy nhrin fel yr unigolyn ydw i ac nid fel yr unigolyn maen nhw'n ei weld.”**

Datblygu Cynlluniau Cydraddoldeb Anabledd

Cynlluniau Cydraddoldeb Anabledd

- 47 Roedd gan ysgolion ddyletswydd benodol i lunio Cynllun Cydraddoldeb Anabledd erbyn 1 Ebrill 2007. Dylai'r cynllun hwn gael ei gymeradwyo gan lywodraethwyr, ei adolygu bob blwyddyn a'i ddisodli bob tair blynedd. Rhaid i'r cynllun gynnwys:
- datganiad ynglŷn â'r modd y mae pobl ag anableddau wedi cymryd rhan mewn datblygu'r cynllun;
 - cynllun gweithredu sy'n cynnwys ffyrdd y bydd gwelliannau'n cael eu gwneud;
 - trefniadau ar gyfer casglu gwybodaeth am effaith polisiâu ysgolion ar ddisgyblion a staff ag anableddau;
 - sut mae'r ysgol yn asesu effaith ei pholisiâu ar gydraddoldeb anabledd; a
 - sut bydd gwybodaeth yn cael ei defnyddio i adolygu'r cynllun gweithredu a llywio cynlluniau dilynol.
- 48 Mae gan bron bob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw Gynlluniau Cydraddoldeb Anabledd gyda chynlluniau gweithredu ar waith, yn ogystal â chynlluniau hygyrchedd. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r cynlluniau hyn yn bodoli fel dogfennau ar wahân. Yn gyffredinol, mae'r cynlluniau gweithredu cyfatebol yn nodi tasgau priodol, graddfeydd amser a chyfrifoldebau staff.
- 49 Mae cynlluniau, cynlluniau gweithredu ac arfer ysgolion yn amrywio'n sylweddol o ran cwmpas ac ansawdd. Mae rhai ysgolion wedi gwneud cynnydd gwell wrth weithredu yn unol â'u cynlluniau nag ysgolion eraill yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau yn cyfeirio'n dda at gysylltiadau â pholisiâu eraill fel polisiâu'r ysgol ar gyfer cynhwysiant, gwrth-fwllo, ymddygiad ac ar gyfer ymweliadau addysgol.
- 50 Gwendid cyffredin mewn cynlluniau yw sut mae ysgolion yn monitro ac yn arfarnu cynnydd. Nid yw ysgolion yn cynllunio i arfarnu effaith eu cynlluniau yn ddigon da.
- 51 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn addasu templedi generig y mae eu hawdurdod lleol yn eu darparu ar eu cyfer i ddatblygu eu cynlluniau. Mae gan rai ysgolion arfer gwbl gynhwysol, sydd wedi'i hymgorffori'n dda, ond nad yw'n cael ei chydhabod yn gyfan gwbl yn eu cynllun ysgrifenedig. Mewn rhai achosion, nid yw polisiâu wedi'u hysgrifennu'n dda yn adlewyrchu arfer, nad yw'n fwy na digonol yn unig.
- 52 Mae mwyafrif yr ysgolion wedi arfarnu eu Cynllun Cydraddoldeb Anabledd cychwynnol ac wedi llunio ail gynllun, yn unol â'r cylch tair blynedd sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth. Nid oes gan nifer fach iawn o ysgolion Gynllun Cydraddoldeb Anabledd. Mae un UCD yn gweithio ar sail un cynllun hygyrchedd yn unig.
- 53 Mae pob arweinydd yn dangos agweddau cadarnhaol at hyrwyddo cydraddoldeb anabledd ac maent yn deall yn llawn yr angen i wneud newidiadau i gyfleusterau ac ymagweddau ysgol gyfan i hyrwyddo cydraddoldeb anabledd, yn ogystal â pharhau i

fodloni anghenion penodol disgyblion unigol. Caiff cynnydd ei ddylanwadu'n gryf gan faint o gyllid sydd ar gael.

- 54 Er y dylai'r Cynllun Cydraddoldeb Anabledd fod yn berthnasol i bawb ag anableddau, mae'r prif bwyslais, yn ymarferol, ar ddisgyblion ag anableddau corfforol neu weladwy. Nid yw mwyafrif yr ysgolion prif ffrwd a'r UC'Dau yn ystyried ystod lawn y disgyblion, y rhieni neu'r staff sydd ag anableddau.
- 55 Cyhoeddir y rhan fwyaf o Gynlluniau Cydraddoldeb Anabledd ar wefan yr ysgol ac maent ar gael ar ffurf copi papur neu yn electronig. O gael cais, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn trefnu bod eu Cynllun Cydraddoldeb ar gael mewn fformatau eraill. Er enghraifft, maent yn eu haddasu'n electronig ar gyfer rhieni sydd â nam ar eu golwg, yn cynhyrchu fersiynau mewn Braille neu'n eu cyfieithu i ieithoedd eraill, fel Pwyleg. Enghraifft benodol o arfer dda yw lle mae un awdurdod lleol wedi creu fersiwn Hawdd ei Darllen o'i Gynllun Cydraddoldeb Anabledd ar gyfer y cyhoedd. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o rieni a disgyblion yn gwybod am fodolaeth y cynlluniau. Ers lansio deddfwriaeth y DGSA, mae pob awdurdod lleol wedi darparu hyfforddiant i gefnogi darpariaeth wrth gymhwyso'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Anabledd. Cyflwynwyd y rhan fwyaf o'r hyfforddiant hwn yn gynnar yn y cylch tair blynedd, er bod rhai awdurdodau yn awr yn cyflwyno ail gam yr hyfforddiant.
- 56 Mae enghreifftiau o awdurdodau lleol yn parhau i fonitro a herio eu darpariaeth yn ogystal â darparu cymorth. Mae rhai awdurdodau lleol yn targedu uwch reolwyr newydd a chydlynwyr anghenion addysgol arbennig ar gyfer hyfforddiant diweddarau ar raglen dreigl. Mewn dau awdurdod, mae gweithio clwstwr yn effeithiol o ran helpu cynnal y cynnydd trwy rannu arfer a darparu cyfranogiad ehangach, mwy amrywiol.
- 57 Mae gan awdurdodau lleol weithdrefnau da ar waith ar gyfer blaenoriaethu a dyrannu cyllid i fodloni anghenion disgyblion ag anableddau. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau, mae panelau amlasiantaethol yn cynnwys ystod eang o bartneriaid lleol mewn gwneud penderfyniadau cyllid am leoliadau, offer a chymorth ar gyfer disgyblion ag anableddau. Mae partneriaethau â gwasanaethau iechyd yn gweithio'n dda ar y cyfan, yn enwedig pan fydd angen offer arbenigol. Mewn rhai ardaloedd, nid yw cyflwyno offer arbenigol wedi'i drefnu'n dda bob amser ac mae hyn yn arwain at oedi a chyflwyno nad yw wedi ei gynllunio.

Cynnwys pobl ag anableddau

- 58 Mae ysgolion i gyd yn ymwybodol o'r gofyniad i gynnwys pobl ag anableddau mewn datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Anabledd. Yn gyffredinol, maent yn cyflawni hyn trwy weithredu polisi 'drws agored' ar gyfer yr holl randdeiliaid. Mae hyn yn caniatáu trafodaethau anffurfiol a chyfnewid gwybodaeth yn unigol yn rheolaidd, ond mae angen cryfhau hyn yn y rhan fwyaf o ysgolion. Mae enghreifftiau o arfer dda yn bodoli lle mae arweinwyr hefyd yn cyflwyno holiaduron i staff, rhieni a disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys cwestiynau ar gydraddoldeb anabledd. Caiff y wybodaeth a gesglir ei defnyddio'n bwrpasol wedyn i lywio cynlluniau gweithredu.
- 59 Er bod llawer o ysgolion yn ymdrechu i recriwtio rhieni i gymryd rhan mewn datblygu polisiâu ysgol, mae hyn yn anodd. Mae rhai ysgolion yn gwneud ymdrechion ychwanegol i gynnwys rhieni. Fodd bynnag, mae llywodraethwyr sy'n rhieni ag

anableddau yn aml yn barod i gyflawni'r rôl hon. Bron ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, roedd gan lywodraethwyr fwy o rôl mewn datblygu'r cynllun cydraddoldeb anabledd na rhieni.

“Mae diwylliant ac ethos yr ysgol, ynghyd â'r polisi drws agored, yn sicrhau bod cydraddoldeb anabledd yn cael ei hyrwyddo ar draws cymuned yr ysgol. Er na ofynnwyd i mi fel rhiant gyfrannu at y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd, rwy' wedi gwybod erioed y bydd yr ysgol yn ymateb ar unwaith i unrhyw bryderon sydd gen i. Fel llywodraethwr, rwy' wedi ymwneud yn fawr â datblygu'r cynllun”.

- 60 Gall nodi rhieni a staff ag anableddau fod yn faes sensitif i arweinwyr fynd i'r afael ag ef. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn ymwybodol o ba rieni a staff sydd ag anableddau, a chyda chaniatâd, mae rhai ohonynt yn cynnal cronfeydd data o bawb sydd ag anableddau yng nghymuned yr ysgol. Fodd bynnag, mae arweinwyr yn gyffredinol yn defnyddio mecanweithiau sydd eisoes yn bod ar gyfer ymgynghori ynghylch polisi, fel anfon polisïau at rieni ar restr rota a threfnu bod polisïau ar gael ar wefannau, i gael adborth gan rieni. Nid yw hyn yn arwain at gynnwys rhieni yn effeithiol ac yn strategol. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion na rhieni yn ymwybodol o, ac yn cymryd rhan mewn llunio ac arfarnu'r cynllun, yn ffurfiol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o rieni a'r holl ddisgyblion sydd ag anableddau, yn unol â'u galluoedd, yn cymryd rhan mewn gosod targedau mewn cyfarfodydd cynllunio ac adolygu unigol. Gwnaed y datganiad canlynol gan riant plentyn ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistig a gafodd ei leoli mewn ysgol gynradd prif ffrwd:

“Does neb yn gofyn yn benodol i ni gyfrannu at y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd, ond gallwn bob amser fynd at unrhyw aelod o staff a thrafod materion fel maen nhw'n codi. Rydyn ni hefyd yn cael adroddiadau ysgol cynhwysfawr iawn ac mae gennym ni lais mewn adolygiadau a chyfarfodydd blynyddol. Mae dyddiadur cartref-ysgol rhagorol sy'n cynnig trafodaeth os bydd angen. Mae pobl yn gwrando ar fy mab. Pan mae wedi cael problem achlysurol yn yr ysgol, mae pobl wedi gwrando arno o ran y ffaith ei fod yn gallu dweud beth sy'n peri gofid iddo ac maen nhw'n ymateb yn unol â hynny – os yw'n briodol gwneud hynny.”

- 61 Mae rhai enghreifftiau o arfer fentrus lle trefnir fforwm ymgynghori ymlaen llaw mewn nosweithiau rhieni, sy'n golygu bod modd derbyn barn fwy cyfunol. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd fel clwstwr ac yn cyfarfod â rhieni, llywodraethwyr, aelodau o'r gymuned a chynrychiolwyr o grwpiau Cymorth Iechyd ac Anabledd.
- 62 Pan fydd disgyblion yn cymryd rhan mewn datblygu polisi, mae hyn fel arfer yn golygu eu bod yn ymateb i holiaduron ac yn cymryd rhan mewn archwiliadau hygyrchedd (gweler astudiaethau achos 1 a 2 yn atodiad 2). Mae enghreifftiau da eraill o gyfranogiad disgyblion sy'n cynnwys cynghorau ysgol yn cymryd rhan mewn diweddarau polisïau gwrth-fwllo ac adolygu polisïau cynhwysiant.
- 63 Ychydig iawn o staff ag anableddau sy'n cael eu cyflogi yn y ddarpariaeth yr ymwelwyd â hi. Fodd bynnag, dywedodd y ddau aelod o staff a gafodd eu cyfweld eu bod yn ymgymryd â gweithgareddau datblygu polisi yn rheolaidd ac y gallent roi

enghreifftiau o'u cysylltiad yn y Cynlluniau Cydraddoldeb Anabledd. Roedd yr ysgolion hyn yn gynhwysol ac roeddent wedi gwneud addasiadau ffafriol i gefnogi cydraddoldeb anabledd.

Gweithio mewn partneriaeth

- 64 Mae llawer o gysylltiadau effeithiol rhwng ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd sy'n annog agweddau cadarnhaol at anabledd. Mae rhannu cyfleusterau ac adnoddau eraill yn galluogi disgyblion i gael profiadau cymdeithasol mwy amrywiol ac yn rhoi cyfleoedd i gryfhau'r ddarpariaeth, deall gwahaniaeth a dathlu amrywiaeth. Er enghraifft, mae disgyblion o ysgolion prif ffrwd yn ymuno â chyrsiau mewn un ysgol arbennig fel rhan o ddewisiadau Llwybr Dysgu 14-19.
- 65 Mae llawer o ysgolion arbennig wedi gwneud defnydd da o gyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru i arbrofi â menter 'Datgloi Potensial Ysgolion Arbennig' i rannu arfer ac ymestyn cysylltiadau rhwng darpariaeth arbennig a darpariaeth prif ffrwd. Er enghraifft, mae'r fenter hon wedi ariannu athrawon o ysgolion arbennig i ddarparu hyfforddiant ynglŷn â sut i gynorthwyo disgyblion ag anableddau ar gyfer athrawon mewn ysgolion prif ffrwd.
- 66 Mae llawer o enghreifftiau o gydweithio â sefydliadau ieuchyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwirfoddol. Er enghraifft, mewn un ysgol arbennig yr ymwelwyd â hi, mae Mencap Cymru yn gweithio gyda phobl ifanc ag anableddau dysgu i roi cyfleoedd ehangach iddynt roi cynnig ar wahanol weithgareddau hamdden a datblygu cyfeillgarwch newydd. Mewn ysgolion eraill, mae cydweithio â Gyrfa Cymru, yr heddlu neu Chwaraeon Anabledd Cymru, yn cynyddu'r cymorth a'r cyngor sydd ar gael a gall wella'r deilliannau ar gyfer pobl ifanc ag anableddau (gweler astudiaeth achos 4 yn atodiad 2). Mae ysgolion, yn enwedig ysgolion cymunedol, yn gweithio gyda nifer gynyddol o bartneriaid i wella'r cymorth sydd ar gael i ddisgyblion ag anableddau. Mae lleoli partneriaid gyda'i gilydd, a gyflawnir yn aml trwy neilltuo ystafelloedd dynodedig i bartneriaid weithio mewn ysgol, yn gwella ansawdd a rheoleidd-dra'r cymorth a'r cyngor sydd ar gael i ddisgyblion ag anableddau.
- 67 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion ac awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i hyrwyddo cydraddoldeb anabledd. Mae gan bob awdurdod lleol banelau amlddisgyblaethol ar gyfer tasgau amrywiol sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb anabledd i wneud penderfyniadau ariannu ynglŷn â lleoliadau ysgol, cymorth ac addasiadau corfforol i adeiladau ar gyfer disgyblion ag anableddau. Mae cydweithio effeithiol yn bodoli rhwng adrannau mewn awdurdodau lleol, fel y tîm anghenion dysgu ychwanegol a'r tîm cydraddoldeb, a chyda phartneriaid eraill, fel ieuchyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r cydweithio hwn yn cyfrannu at wneud penderfyniadau cadarn. Mae rhieni yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r ddarpariaeth a'r addasiadau a wneir ar gyfer eu plentyn. Fodd bynnag, roedd rhai rhieni wedi cael trafferth ar y dechrau o ran cael yr awdurdod lleol i nodi ac asesu anghenion eu plant.
- 68 Mae llawer o enghreifftiau da hefyd o gynnwys awdurdodau lleol mewn hyrwyddo cydraddoldeb anabledd. Mae gwefannau llawer o awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol, fel nodi addasiadau corfforol a wnaed i'w hadeiladau, er enghraifft desgiau is mewn derbynfydd a sut i ddefnyddio dolenni clywed. Mae hyn

yn codi ymwybyddiaeth am gydraddoldeb anabledd yn gyffredinol ac yn gosod agenda gynhwysol i ysgolion ei dilyn. Mae rhai awdurdodau lleol yn trefnu bod eu Cynlluniau Anabledd ar gael yn electronig mewn gwahanol fformatau, fel fersiynau Hawdd eu Darllen (gweler yr eirfa), ac mae ganddynt gysylltiadau i allu defnyddio fformatau eraill wedi'u haddasu. Mae crynodebau o Gynlluniau Cydraddoldeb Anabledd sy'n defnyddio iaith arwyddion yn ogystal â sylwebaeth sain ar gael ar wefannau rhai awdurdodau lleol. Mae mecanweithiau cyhoeddusrwydd mewnol ac allanol eraill, fel datganiadau i'r wasg ar anabledd a thudalennau newyddion gwefannau, yn darparu gwybodaeth gymunedol ddefnyddiol ac yn codi ymwybyddiaeth yn fwy cyffredinol am y cynnydd a wnaed tuag at gydraddoldeb anabledd.

- 69 Mae pob awdurdod yn darparu hyfforddiant priodol am gydraddoldeb anabledd. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau, mae hyfforddiant ar gael i benaethiaid, cydlynwyr anghenion addysgol arbennig a chyrff llywodraethol. Mae pob ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r polisïau a'r templedi enghreifftiol a ddarperir gan eu hawdurdod lleol i lunio eu Cynlluniau Cydraddoldeb Anabledd. Mae llawer o awdurdodau yn ailedrych ar eu rhaglen hyfforddi a chymorth ar hyn o bryd gan fod angen rhoi cynlluniau newydd ar waith yn dilyn yr adolygiad tair blynedd. Mae'r awdurdodau gorau yn parhau i fonitro cynlluniau eu hysgolion, ac mae un awdurdod yn targedu penaethiaid a chydlynwyr anghenion addysgol arbennig newydd yn rheolaidd i ddarparu arweiniad ychwanegol.
- 70 Cafodd awdurdodau lleol eu cynnwys a'u hyfforddi yn bennaf ar ddechrau cylch tair blynedd y Cynlluniau Cydraddoldeb Anabledd, yn dilyn cyflwyno'r DGSA yn 2006. Roedd blaenoriaethau cychwynnol yn cynnwys cymorth ar gyfer llunio cynlluniau a chynlluniau gweithredu.

Defnyddio data i nodi a mynd i'r afael â materion cydraddoldeb anabledd

- 71 Yn gyffredinol, caiff data ar gyfer disgyblion ag anableddau ei gasglu a'i ddadansoddi yn yr un ffordd ag ar gyfer pob disgybl, er nad oes unrhyw ddata cenedlaethol wedi'i feincnodi ar berfformiad mewn ysgolion arbennig.

Data cynnydd

- 72 Cesglir y data ar ddiwedd cyfnodau allweddol yn unol â systemau olrhain ysgol gyfan ar gyfer disgyblion. Dadansoddir ac ymatebir i ddeilliannau ar gyfer gwahanol grwpiau mewn carfannau, fel disgyblion ag anableddau, mewn ffordd debyg ar gyfer pob disgybl.
- 73 Caiff cynnydd disgyblion mewn perthynas â'u cynlluniau addysg unigol ei adolygu a'i fonitro yn rheolaidd. Ar y lefel unigol hon, mae disgyblion a'r rhan fwyaf o rieni yn cymryd rhan yn weithredol mewn trafodaethau am gynnydd ac wrth wneud penderfyniadau am gynllunio.
- 74 Rhoddodd rhai o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw enghreifftiau o newidiadau i'r cwricwlwm yn sgil adolygu data deilliannau ar gyfer grwpiau amrywiol. Nododd un arweinydd ysgol uwchradd fod eu cwricwlwm integredig newydd yng nghyfnod allweddol 3 yn darparu mwy o gyfleoedd i athrawon weddu anghenion canfyddadwy pob disgybl yn well mewn ffordd hyblyg a chynaliadwy. Roedd hyn yn gwella deilliannau yn yr ysgol, yn enwedig ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau.

Monitro presenoldeb ac ymddygiad

- 75 Mae pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn casglu data presenoldeb ac ymddygiad ar bob disgybl ac yn dadansoddi'r rhain ar gyfer grwpiau penodol, fel disgyblion ag anableddau. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn nodi ac yn darparu cymorth ychwanegol ar gyfer disgyblion ag anableddau ac yn gwneud addasiadau priodol, er enghraifft ar gyfer disgyblion y mae angen iddynt fynychu'r ysbyty yn rheolaidd.

Canfu ychydig iawn o ddisgyblion nad oedd lefel y cymorth ar ôl cyfnodau o absenoldeb mor uchel yn eu hysgol uwchradd, o'i gymharu â'u hysgol gynradd flaenorol. Dywedodd un disgybl ag anghenion meddygol difrifol:

“Mae fy mhresenoldeb wedi bod yn dda erioed, heblaw i'r cyfnod rwy'n ei dreulio yn yr ysbyty yn rheolaidd. Roedd staff yn yr ysgol gynradd bob amser yn ymdrechgu i'm cefnogi pan oeddwn i'n mynd yn ôl i'r ysgol.”

- 76 Caiff dadansoddi data hefyd ei ddefnyddio'n dda i lywio'r cyfeirio at asiantaethau allanol priodol, er enghraifft pan fydd angen cymorth ychwanegol gan weithwyr cymdeithasol addysg neu dimau cymorth ymddygiad ar bresenoldeb ac ymddygiad disgyblion.

Monitro bwlio oherwydd anabledd

- 77 Mae gan bob ysgol yr ymwelwyd â hi bolisiau gwrth-fwlio ac maent yn cynnal cofnodion o achosion o fwlio. Mae arweinwyr yn ymwybodol o'r tueddiadau presennol mewn bwlio, er enghraifft bwlio seiber, ac mae gan y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth yr ymwelwyd â hi systemau datblygedig i fynd i'r afael â'r rhain. Fodd bynnag, mae arweinwyr o'r farn fod bwlio oherwydd anabledd yn anghyffredin ac awgrymodd un arweinydd fod:

“Angen mwy o gymorth ar ddisgyblion ag anableddau i ddeall y cysyniad bwlio gan nad yw eu hamgyffrediad o fwlio yn gywir bob tro.”

- 78 Mae bwlio oherwydd anabledd yn llai tebygol o ddigwydd nag am resymau eraill fel acen, tlodi neu anawsterau dysgu (Yr Uned Pobl a Gwaith, 2010). Fodd bynnag, wrth drafod â disgyblion ag anableddau, dywedodd lleiafrif ohonynt eu bod wedi cael eu bwlio. Mae hyn yn digwydd y tu allan i'r ysgol ac yn yr ysgol. Roedd eu henghreifftiau personol, i gyd o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf, yn cynnwys galw enwau ac ymosodiad corfforol mewn un achos, ac roedd pob un o'r rhain yn cyfeirio at eu hanabledd corfforol. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn ysgolion arbennig ac UC Dau nad ydynt yn cael eu bwlio. Yr hyn sy'n galonogol yw'r ffaith fod pob disgybl yn gwybod sut i weithredu a gyda phwy i siarad os byddant yn cael eu bwlio. Maent yn gadarnhaol ynglŷn â sut mae eu hysgolion yn ymateb i fynd i'r afael â'r achosion hyn, ond i rai disgyblion, nid yw hyn yn rhoi diwedd ar y galw enwau.

Data staff

- 79 Mae ysgolion yn cynnal cronfeydd data gyda manylion am staff ag anableddau, ond wedi iddynt gael caniatâd gan yr unigolyn yn unig. Mae nifer o enghreifftiau o addasiadau ffafriol ar gyfer staff yn bodoli, ac yn gyffredinol maent wedi cael eu cydlynu yn unol ag adran Adnoddau Dynol yr awdurdod lleol. Mae enghreifftiau yn cynnwys dychwelyd i'r gwaith yn raddol yn dilyn anawsterau iechyd, baich gwaith llai, mentora a threfniadau mynediad mwy ffafriol.

Sut mae ysgolion ac UC Dau yn asesu effaith eu Cynllun Cydraddoldeb Anabledd

Arfarnu effaith

- 80 Mae mwyafrif yr ysgolion wedi datblygu cynlluniau ynghyd â chynlluniau gweithredu, ond nid ydynt yn arfarnu effaith y cynlluniau hyn yn ddigon da.
- 81 Mae arweinwyr yn asesu effaith y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd yn anffurfiol ac yn ffurfiol mewn trafodaethau a chyfarfodydd ffurfiol gyda rhieni, disgyblion, staff a llywodraethwyr. Yn ychwanegol, mae gwybodaeth o lawer o adolygiadau blynyddol yn cyfrannu at y broses asesu effaith. Mae'r adolygiadau blynyddol hyn yn cynnwys ystyried y canlynol:
- adroddiad hunanarfarnu ysgol gyfan;
 - cynllun gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Anabledd;
 - datganiadau o anghenion addysgol arbennig disgyblion;
 - data cyrhaeddiad yn ôl carfannau ac yn ôl grwpiau lle bo'n briodol; a
 - gweithio perthnasol mewn partneriaeth.
- 82 Mae enghreifftiau da yn bodoli lle cesglir gwybodaeth yn fwy eang na hyn, er enghraifft mewn ymatebion i holiaduron gan rieni, disgyblion a staff, ac o adroddiadau boddhad addysg gymunedol. Mae sail y dystiolaeth hon yn cryfhau asesiad effaith pan gaiff ei ddefnyddio'n dda.
- 83 At ei gilydd, nid yw'r ffordd y mae ysgolion yn arfarnu effaith y cynlluniau wedi'i datblygu digon. Er bod addasiadau priodol ac addasiadau ffafriol yn cynyddu ac yn gwella dros gyfnod, ni chaiff effaith y cynlluniau gweithredu ei hasesu'n ddigon da. Nid yw arfarnu yn llywio'r cynllunio ymlaen llaw. Mae angen cryfhau hyn ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol. Byddai ysgolion yn elwa ar arweiniad pellach gan yr awdurdod lleol ar sut i wella'r arfarniad a barnu effaith eu cynlluniau ar bobl ag anableddau.

Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

- 84 Mae nifer yr apeliadau i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn parhau i fod yn isel, ac er 2007, mae wedi bod yn gostwng. Mae nifer yr apeliadau ar sail methu mewn perthynas â chydraddoldeb anabledd yn isel iawn ac mae wedi gostwng o naw yn 2006-2007 i ddau yn 2008-2009. Mae'r rhesymau dros hyn yn cynnwys y canlynol:
- mae rhieni a phlant yn fwy bodlon â'u darpariaeth;
 - ni chaiff rhieni eu hysbysu'n dda ynglŷn â'u hawl i apelio ar sail cydraddoldeb anabledd; ac
 - mae deddfwriaeth anabledd wedi cael effaith gadarnhaol ar awdurdodau lleol ac ysgolion ac wedi gwella'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ag anableddau.

Atodiad 1

Sail y dystiolaeth

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ystod o dystiolaeth, gan gynnwys:

- adroddiadau arolygu ysgolion ac UCD gan Estyn o 2007-2010, yn dilyn cyhoeddi Canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Hyrwyddo Cydraddoldeb Anabledd' yn 2007. Roedd y sampl hon yn cynnwys adroddiadau arolygu o 777 o ysgolion cynradd, 107 o ysgolion uwchradd, 21 ysgol arbennig a 15 UCD;
- cyfweiliadau â swyddogion, sydd â chyfrifoldeb am gynhwysiant a chydraddoldeb anabledd, o saith awdurdod lleol;
- ymweliadau ag 20 ysgol a saith UCD yn yr awdurdodau lleol hyn;
- gwybodaeth o arolwg ar-lein, am Gynlluniau Cydraddoldeb Anabledd, wedi'u llenwi gan naw ysgol o 10 awdurdod lleol ychwanegol yng Nghymru;
- adolygiad o Gynlluniau Cydraddoldeb Anabledd a ddarparwyd gan sampl o awdurdodau, eu hysgolion ac UCDAu; ac
- adolygiad o ddedoliad bach o ymchwil diweddar.

Cynhaliwyd cyfweiliadau mewn ysgolion, gyda thimau rheoli (gan gynnwys llywodraethwyr), disgyblion ag anableddau, rhieni a dau aelod o staff ag anableddau. Roedd y cyfweiliadau hyn yn cynnwys:

- cyfarfodydd ag wyth arweinydd, 11 o rieni, 18 o ddisgyblion ac un aelod o staff mewn ysgolion cynradd;
- cyfarfodydd â chwe arweinydd, tri rhiant a chwe disgybl mewn ysgolion uwchradd;
- cyfarfodydd gyda chwe arweinydd, saith rhiant, 19 o ddisgyblion, ac un aelod o staff mewn ysgolion arbennig; a
- chyfarfodydd gyda saith arweinydd a 15 disgybl mewn UCDAu.

Defnyddiodd y tîm amserlenni cyfweild safonol er cysondeb ac er mwyn strwythuro'r cyfarfodydd. Roedd y themâu a archwiliwyd yn cynnwys y canlynol:

- cynnwys pobl ag anableddau;
- addasiadau ffafriol a deilliannau addysgol disgyblion;
- asesu effaith polisiâu ar bobl ag anableddau, yn enwedig disgyblion;
- cynlluniau gweithredu, gan gynnwys graddfeydd amser a gweithdrefnau ar gyfer adolygu blynyddol ac adnewyddu bob tair blynedd;
- cyfle i ddefnyddio cynlluniau a gwybodaeth am gydraddoldeb anabledd, gan gynnwys cyhoeddi; a
- chynnwys cyrff llywodraethol, partneriaid ac awdurdodau lleol eraill.

Canfyddiadau o ymchwil diweddar

Mae effeithiolrwydd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau yn destun trafodaeth barhaus. Mae corff mawr o ymchwil ar gael ac mae'r adran isod yn defnyddio detholiad o adroddiadau diweddar.

Adroddir am wahaniaethau eang mewn cymorth a darpariaeth gan rieni ledled y Deyrnas Unedig. Yn sgil ymchwil a arweiniwyd gan Brifysgol Birmingham (2009), gan ddefnyddio arolwg post, canfuwyd bod gan rieni farn gadarnhaol ar y cyfan am ansawdd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant ag anableddau. Yr eithriad i'r farn hon oedd barn rhieni plant ag anawsterau emosiynol a chymdeithasol a oedd wedi cael eu rhoi mewn ysgolion prif ffrwd.

Wrth adolygu pa mor dda yr oedd ysgolion ac awdurdodau addysg lleol yn cyflawni eu dyletswyddau, adroddodd Estyn (2007) am 10 prif ganfyddiad. Roedd y rhain yn cynnwys:

- gwendidau wrth gynllunio lleoliadau ar gyfer disgyblion ag anableddau;
- diffyg sicrhau bod rhieni a disgyblion yn cymryd rhan mewn cynllunio unigol;
- partneriaethau heb eu datblygu digon rhwng ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig; a
- diffyg cludiant hyblyg arbenigol i gynorthwyo disgyblion ag anableddau i fynychu gweithgareddau allgyrsiol.

Yng Nghymru, mae 'Datganiadau neu Rywbeth Gwell?' (LICC, 2007) yn argymhell mwy o empathi gan awdurdodau lleol gyda rhieni plant ag anghenion arbennig neu anableddau a mwy o bwyslais ar wrando ar farn plant, pobl ifanc a rhieni. Mae'r adroddiad yn amlygu pwysigrwydd cydweithio rhyngasiantaethol, yn enwedig ar adegau pontio. Mae pedwar prosiect peilot a nodwyd yn strategol yn cael eu datblygu ar hyn o bryd i lywio diwygio'r broses nodi, cymorth a darpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig ac anableddau. Dylai system ddiwygiedig a gwell:

- fod yn gyfiawn, yn deg ac yn eglur;
- gael ei rhoi ar waith yn gyson ledled Cymru; a
- bod yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion unigol.

Dylai feithrin partneriaethau effeithiol gyda rhieni a sefydliadau gwirfoddol, a chynnig:

- diogelu hawl yn effeithiol;
- defnyddio adnoddau yn effeithlon;
- monitro ac arfarnu trylwyr;
- ymatebolrwydd i farn pobl ifanc a rhieni; a
- datganiadau sy'n fyr ac yn cadw at raddfeydd amser.

Yn Lloegr, amlygodd Ymchwiliad Lamb (2009) y manteision pan fydd ysgolion yn cynnwys disgyblion anabl mewn datblygu cynllun yr ysgol. Gall disgyblion ag anableddau, os gofynnir iddynt, gynnig mewnwelediad gwerthfawr i'r hyn sydd yn eu barn nhw yn gwneud bywyd ysgol yn anodd, a'r hyn sy'n amharu ar eu dysgu ac yn cyfyngu eu cyfranogiad. Mae'r canfyddiadau yn awgrymu y dylai disgyblion ag

anableddau feddwl am awgrymiadau ymarferol, sy'n aml yn syml, ar gyfer sut gallai'r ysgol wneud newidiadau, fel gwella gweithdrefnau gwrth-fwllo a gwella'r cyfle i ddysgu. Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad fod cynnwys disgyblion ag anableddau yn cynnig potensial sylweddol i wella eu deilliannau dysgu. Amlygodd yr adroddiad fod angen darparu ymagwedd fwy unigol a phersonol at gyflwyno gwasanaethau ar gyfer anghenion addysgol arbennig ac anableddau.

Atodiad 2

Astudiaethau achos arfer dda

Astudiaeth achos 1

Cyfranogiad disgyblion mewn ysgol arbennig yn Sir Benfro

Cyd-destun

Mae'r ysgol arbennig yn gynhwysol iawn ac mae ganddi gyngor ysgol gweithgar. Gofynnodd grŵp o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth i'r cyngor ysgol edrych ar y llwybr i'r archfarchnad leol, gan ei bod yn anodd iddynt symud eu cadeiriau olwyn dros y palmentydd i groesi'r ffyrdd.

Gweithredu

Fe wnaeth y cyngor ysgol:

- drefnu cerdded y daith hon gydag un o'r myfyrwyr sy'n defnyddio cadair olwyn, i weld pa rwystrau ar y daith oedd yn gwneud y daith yn anodd. Aethpwyd ar ddau lwybr gwahanol i weld a oedd dewisiadau eraill ymarferol;
- dod i'r casgliad mai'r unig ffordd y gallai'r myfyrwyr gyrraedd yr archfarchnad leol, er mwyn siopa ar gyfer paratoi eu pryd bwyd, oedd trwy ddod i ben â mynd ar balmant anodd ac uchel iawn, neu drwy groesi priffordd brysur iawn;
- llunio cyflwyniad PowerPoint i ddangos i'r cyngor lleol beth oedd y problemau; a
- dangos eu cyflwyniad i'r pennaeth a gofyn am ei chefnogaeth.

Estynnodd y pennaeth wahoddiad i Swyddog Mynediad yr awdurdod lleol ymweld ac fe wnaeth y disgyblion hefyd gynnwys cynghorydd lleol i ddod i'r ysgol a gwyllo eu cyflwyniad. Cytunodd y swyddog mynediad i gerdded y llwybr gyda'r myfyrwyr ac fe gyflwynodd eu gwybodaeth i adran drafnidiaeth y Cyngor Sir yn ddiweddarach.

Cydnabu'r pennaeth, swyddog mynediad yr awdurdod lleol a'r cynghorydd lleol y canfyddiadau ac fe wnaethant gefnogi'r myfyrwyr yn llawn.

Canlyniad

Anfonodd y Cyngor lythyr at y disgyblion i gydnabod yr anawsterau ac i ddweud y byddai'r gwaith angenrheidiol yn cael ei wneud erbyn diwedd y mis Ebrill dilynol. Cafodd y gwaith hwn, a oedd yn cynnwys gostwng y palmentydd ar y llwybr a gosod mesur arafu'r traffig, ei gwblhau o fewn cyfnod byr. Roedd y myfyrwyr wrth eu bodd bod eu llais wedi cael ei glywed a bod yr addasiadau angenrheidiol wedi cael eu blaenoriaethu. Fe wnaeth y cyngor ysgol gynnal cyfarfod cynllunio i drafod y ffordd orau o ymateb i'r cais hwn, yn enwedig gan ei fod y tu allan i'r ysgol ac yn y gymuned. Roedd y pennaeth, swyddog mynediad yr awdurdod lleol a'r cynghorydd lleol wedi cydnabod a chefnogi eu hargymhellion.

Astudiaeth achos 2

Mae disgyblion mewn ysgol gynradd yn Sir y Fflint, sy'n defnyddio cadair olwyn, yn cyfrannu at archwiliad o hygyrchedd.

Cyd-destun

Fel rhan o arfarnu hygyrchedd yr ysgol, gofynnodd ysgol yn Sir y Fflint i ddisgyblion sy'n defnyddio cadair olwyn gymryd rhan ac arolygu'r ysgol i ddarganfod pa mor hawdd ydoedd iddo gael mynediad i adeilad a thir yr ysgol.

Gweithredu

Penderfynodd y disgybl a'i gynorthwyydd cymorth dysgu (CCD) deithio o gwmpas yr ysgol gyda'i gilydd i wirio pa feysydd yr oedd yn hawdd cael mynediad iddynt a pha rai oedd yn fwy anodd. Cytunodd y CCD i wneud nodiadau iddo.

Teithiodd y disgybl o gwmpas yr ysgol, y tu mewn a'r tu allan, yn ei gadair olwyn, gyda'i CCD. Lluniodd y rhestr ganlynol o awgrymiadau:

- ramp wrth y drws ffrynt;
- dolenni arbennig er mwyn iddo allu agor drysau;
- mynd yn gyflymach yn y gadair olwyn o gwmpas yr ysgol;
- llwybr at y pwll gan ei fod yn anwastad ac mae'r olwynion yn mynd yn sownd;
- gostwng y tywelion papur neu rywbeth i hongian tywel llaw arno yn y toiledau;
- ffordd haws o gael ei gadair olwyn allan;
- gemau ar y cae chwarae;
- gwneud ffisiotherapi yn lle addysg gorfforol weithiau;
- gosod ei bensil yn agosach at ei gynhalydd llyfr; a
- rhywbeth i wneud ei lawysgrifen yn daclusach.

Canlyniad

Ymatebodd yr ysgol yn gyflym iawn i ddarparu'r hyn yr oedd y disgybl wedi gofyn amdano, ac ystyriodd fod yr ymagwedd hon yn arwain at archwiliad mynediad gwybodus iawn wedi'i lywio'n uniongyrchol gan y disgybl, a wnaeth gryfhau cynllunio gweithredu'r ysgol ar gyfer anabledd.

Astudiaeth achos 3

Gwnaeth ysgol gynradd yng Ngheredigion lawer o addasiadau ffafriol i gynnwys disgybl ag anableddau difrifol ar wibdaith breswyl ysgol.

Cyd-destun

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol iawn ac roedd yn awyddus iawn i ddisgybl Blwyddyn 6, sydd â chyflwr meddygol prin ac anableddau difrifol, fynd gyda'i chyfoedion ar wibdaith breswyl am dridiau. Roedd angen gwneud nifer o addasiadau ar gyfer anableddau'r disgybl er mwyn iddi allu cymryd rhan yn y wibdaith. Roedd angen iddi allu defnyddio cadair olwyn a chael ei chludo ynddi, cael diet penodol a chymryd meddyginiaeth yn rheolaidd. Roedd angen staff cymorth ychwanegol i'w monitro a'i chynorthwyo dros y tridiau a'r tair noson.

Roedd yr ysgol am i'r disgybl gael yr un profiad o annibyniaeth o gartref â gweddill y disgyblion. Roedd hyn yn her arbennig gan nad oedd y disgybl wedi bod oddi cartref nac i ffwrdd o'i rhieni erioed o'r blaen, am fwy nag ychydig oriau. Roedd yr ysgol hefyd yn ofalus i wneud yn siŵr bod y ganolfan breswyl a ddewiswyd yn herio ac o ddiddordeb i'r 80 disgybl arall.

Gweithredu

Cynlluniodd yr ysgol ymhell ymlaen llaw, ac ar ôl gwneud gwaith ymchwil, daeth o hyd i ganolfan weithgareddau newydd yng Nghaerdydd a oedd yn addas ar gyfer anghenion pob plentyn. Roedd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau yn digwydd yn ardal Bae Caerdydd lle'r oedd mynediad da iawn ar gyfer cadeiriau olwyn. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd cynllunio gyda nyrsys, rhieni'r disgybl a ffrindiau agos, a'r ganolfan. Cytunwyd ar nifer o addasiadau ffafriol, gan gynnwys y canlynol:

- talodd yr ysgol yswiriant ychwanegol er mwyn i aelod o staff allu gyrru cerbyd y rhieni a oedd wedi cael ei addasu'n arbennig a allai gludo'r disgybl yn ei chadair olwyn;
- trefnodd y ganolfan bod bwydydd ar gael ar gyfer gofynion dietegol arbennig a darparwyd byrbrydau addas gan ei rhieni;
- aeth nyrs, cynorthwyydd cymorth dysgu a'r cydlynnydd anghenion addysgol arbennig gyda'r disgybl ac aros mewn ystafelloedd cyfagos; a
- rhannodd y disgybl yr ystafell gyda ffrindiau agos a rhoddwyd ffôn iddi allu cysylltu â staff.

Canlyniadau

Fe wnaeth y disgybl elwa'n fawr ar ei phrofiad cyntaf oddi cartref. Galluogodd hyn iddi ddatblygu mwy o annibyniaeth a medrau cymdeithasol a phrofi ymdeimlad o aeddfedrwydd a chyflawniad personol. Roedd y rhieni'n falch iawn â llwyddiant yr arhosiad cyntaf oddi cartref ar gyfer eu merch. Roedd cymuned yr ysgol a'r rhieni yn fodlon iawn bod yr holl gynllunio ymlaen llaw a'r cyd-drefnu wedi arwain at ganlyniad mor dda.

Astudiaeth achos 4

Mae partneriaeth gyda Chwaraeon Anabledd Cymru ac ysgol yng Ngheredigion yn helpu disgybl ag anableddau i gyflawni rhagoriaeth mewn chwaraeon a datblygu medrau arweinyddiaeth gwyh.

Cyd-destun

Yr ysgol a'r swyddog ar gyfer Chwaraeon Anabledd Cymru a sylwodd yn gyntaf ar ddawn y disgybl mewn chwaraeon. Trefnodd y swyddog i'r disgybl fynd i gyfres o dreialon pêl-droed. Roedd y disgybl wrth ei fodd yn cael ei ddewis i gystadlu dros ei wlad yng Ngenefa. Ar ôl y cyflawniad rhagorol hwnnw, sylwodd staff yr ysgol a'r swyddog fod hyder a medrau arweinyddiaeth y disgybl wedi datblygu ymhellach, yn enwedig wrth chwarae pêl-droed i'w dîm.

Gweithredu

Roedd yr ysgol a Swyddog Chwaraeon Anabledd Cymru yn awyddus i helpu'r disgybl i barhau i ddatblygu ei fedrau chwaraeon a gwelodd ei botensial fel hyfforddwr pêl-droed yn y dyfodol.

Cynigiwyd cyfle i'r disgybl ddatblygu ei fedrau chwaraeon a chaffael medrau hyfforddi newydd. Mynychodd Gwrs Arweinydd Chwaraeon y Ddraig yn gyntaf ac wedyn nifer o gyrsiau chwaraeon ychwanegol, fel athletau a Boccia. Cwblhaodd gwrs cynhwysiant anabledd a Chwrs Cymorth Cyntaf hefyd.

Canlyniad

Bedair blynedd yn ddiweddarach, mae'r dyn ifanc:

- yn parhau i chwarae pêl-droed a bod yn hyfforddwr ar gyfer clwb pêl-droed i'r anabl;
- yn gwirfoddoli bob wythnos i gynorthwyo â hyfforddi athletau ar gyfer plant pump oed ac yn hŷn;
- yn gwirfoddoli ar ystod o glybiau chwaraeon a digwyddiadau ysgol eraill;
- enillodd wobwr Gwirfoddolwr y Flwyddyn, Cyngor Chwaraeon Ceredigion yn 2009; ac
- mae ganddo swydd amser llawn.

Dywedodd swyddog Chwaraeon Anabledd Cymru:

“Mae ei gyfraniad at y cynllun wedi bod yn rhagorol ac mae ei weld yn magu hyder a dod yn arweinydd cymwys mewn clybiau yr oedd yn arfer bod yn rhan ohonyn nhw yn wych.”

Atodiad 3

Ymchwil a chyhoeddiadau perthnasol

Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995

Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005

Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2006

Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (1995): arfer ysgolion ac awdurdodau addysg lleol wrth gyflawni eu dyletswyddau: Estyn, Chwefror 2007

Deddf Cydraddoldeb 2010

Adroddiad cyntaf Prif Weinidog Cymru ar Roi'r Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl ar waith: Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhagfyr 2008

Review of Special Educational Needs and Disability Information: Lamb, 2009

Hyrwyddo Cydraddoldeb i Bobl Anabl mewn Ysgolion: Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007

Arolwg o Nifer a Mynychder Achosion o Fwlio yng Nghymru
Prif Adroddiad: Yr Uned Pobl a Gwaith, 2010

Review of Special Educational Needs and Disability Information: Lamb, 2009

Satisfaction with educational provision for children with SEN or disabilities: a national postal survey of the views of parents in Great Britain: Parsons et al, Educational Review, Cyfrol 61, Argraffiad 1, Chwefror 2009, tudalennau 19-47

Datganiadau neu Rywbeth Gwell?: Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007

Geirfa

Cynllun hygyrchedd	Gofyniad statudol i ddarparu manylion ynglŷn â sut bydd yr ysgol yn gwella ei hygyrchedd ar gyfer disgyblion anabl. Mae tri gofyniad ar gyfer y cynllun, sef: cynyddu'r cyfle i ddefnyddio'r cwricwlwm, gwella'r amgylchedd ffisegol, a threfnu bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i ddisgyblion mewn amrywiaeth o ffyrdd.
Bocce	Chwaraeon paralympaidd ar gyfer athletwyr ag anableddau difrifol sy'n effeithio ar eu medrau symud. Mae'n debyg i fowls.
Rhaglen Ddatblygu Genedlaethol Chwaraeon Anabledd Cymru	Menter ar y cyd rhwng Cyngor Chwaraeon Cymru, Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru a'r 22 awdurdod yng Nghymru i hyrwyddo cynnwys pobl ag anableddau mewn chwaraeon cymunedol a chyfleoedd hamdden.
Fersiynau Hawdd eu Darllen	Mae fersiynau Hawdd eu Darllen o ddogfennau, taflenni a gwefannau wedi'u haddasu i wneud yn siŵr eu bod yn defnyddio iaith syml, yn esbonio termau anodd ac yn defnyddio lluniau i egluro'r hyn sy'n cael ei ddweud. Mae canllaw ar gael ar wefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: http://www.equalityhumanrights.com/uploaded_files/how_to_use_easy_words_and_pictures.pdf
Datgloi Potensial Ysgolion Arbennig	Menter a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo cynhwysiant pellach, codi ymwybyddiaeth am arbenigedd mewn ysgolion arbennig a hyrwyddo cyfnewid medrau yn dda rhwng staff ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd.
Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru	Corff a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ond sy'n annibynnol ar y Cynulliad ac Awdurdodau Llywodraeth Leol. Ei rôl yw ystyried apeliadau gan rieni yn erbyn penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan awdurdodau lleol yng Nghymru ynglŷn ag anghenion addysgol arbennig plant.
Cydlynnydd anghenion addysgol arbennig	Mae'r cydlynnydd anghenion addysgol arbennig yn goruchwyllo'r trefniadau sy'n cael eu gwneud gan yr ysgol i fodloni anghenion disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion addysgol arbennig, fel y disgrifir gan y Cod Ymarfer ar gyfer anghenion addysgol arbennig, 2004.

Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

Pauline Preston AY	Awdur yr adroddiad cylch gwaith
Meinir Rees AEM	Aelod tîm
Steve Lamb AEM	Aelod tîm